



CYMDEITHAS HYNAFIAETHAU SIR GAERFYRDDIN
CARMARTHENSHIRE
ANTIQUARIAN
SOCIETY

Ffurfiwyd y Gymdeithas hon yn 1905 ac mae wedi cefnogi a rhannu ymchwil i dreftadaeth gyfoethog Sir Gaerfyrddin am dros ganrif. Bu cynnal cyfarfodydd cyson – teithiau maes ynghyd â sgysysia – yn weithgarwch craidd o'r cychwyn cyntaf. Maen nhw'n weithgareddau sydd wedi parhau hyd heddiw. Mae'r Ysgol Undydd yn llwyddiant blynyddol. Mae'r gweithgareddau a drefnir gennym yn adnodd cymdeithasol ac addysgiadol o bwys i'r llu aelodau sy'n eu mynychu.

Ar y cychwyn ymddangosai manylion am weithgareddau'r Gymdeithas yn y wasg leol. Fe'u hatgynhyrchwyd yn y *Trafodion*. Yna yn 1944

ymddangosodd y *Carmarthenshire Antiquary*. Mae hwnnw wedi ymddangos yn flynyddol ers hynny. Datblygodd erbyn hyn, yn un o brif gyfnodolion hanes sirol Cymru. Ac mae'r Gymdeithas yn dal i gyhoeddi llyfrau a phamffledi sy'n hybu ymwybyddiaeth o dreftadaeth Sir Gaerfyrddin.

Roedd amryw o'r arloeswyr cynnar yn frwd yn hel defnyddiau. Cyflwynwyd i'r Gymdeithas lawer o eitemau o ddiddordeb hanesyddol, ganddyn nhw. Sefydlwyd Amgueddfa yng Nghaerfyrddin i'w diogelu. Yn 1975 trosglwyddwyd y casgliadau gwahanol i Abergwili a dyma sylfaen casgliadau Amgueddfa'r Sir.

Mae'r Gymdeithas yn dal i ffynnu yn sgil ymdrechion glew gan griw o wirfoddolwyr a chyfraniadau ariannol gan

ein haelodau. Yn yr hirlwm sydd ohoni, sut bynnag, cwtogwyd ar gymorthdaliadau i feysydd megis treftadaeth. O ganlyniad mae'n anos inni hybu ymchwil, gwobrwyo ysgolion (gwobr flynyddol) a chyhoeddi. Dryswyd cynlluniau megis llunio mynegai i'r *Antiquary* a digido'r cynnwys.

Byddai'r Gymdeithas yn croesawu cymorth ariannol ychwanegol. Byddem yn falch dros ben petai modd ichi ystyried cymunrodd yn eich ewyllys – wedi ichi ddarparu ar gyfer eich teulu a'ch ffrindiau, yn naturiol. Byddai cyfraniad bychan gennych chi yn gwneud gwahaniaeth.

Mae modd i chi wneud cyfraniad yn hwylus iawn. Gall fod yn swm penodol; cyfran

o'r hyn sy'n weddill wedi i fuddion eraill gael eu rhannu; eitem neu eitemau o'ch eiddo chi sydd o ddiddordeb hanesyddol.

Y cyfan sy'n rhaid ei wneud yw ychwanegu yn eich ewyllys: Cymunroddaf i Gymdeithas Hynafiaethwyr Sir Gaerfyrddin (Rhif Elusen 260705) i ddibenion cyffredinol swm o £_____ neu _____% o weddill fy ystad wedi i bob cymunrodd arall gael ei wneud

Diolch o galon ichi am ystyried hyn. Bydd yn galluogi'r Gymdeithas i lewyrchu ac i ddiogelu treftadaeth ein Sir.